

# Y Diweddaraf am Ganolfan Ddiwylliant Conwy Mai 2019



## Y diweddaraf am y gwaith adeiladu ac arddangosfeydd

Yn dilyn ein cylchlythyr ym mis Ionawr, mae'r prosiect adeiladu wedi dangos cynnydd, ac ar y trywydd cywir i agor ddiwedd yr hydref. Bydd y rheiny sy'n pasio hen safle'r ysgol yn sylwi ar newid sylweddol ar y safle. Mae tîm y Ganolfan Ddiwylliant yn brysur yn gweithio ar du mewn y Ganolfan, drwy weithio ar ddyluniadau ar gyfer arddangosfeydd rhyngweithiol treftadaeth a'r llyfrgell.

Enw ein harddangosfa dros dro gyntaf fydd 'Pobl Conwy', a bydd yn dathlu straeon bywydau detholiad o bobl, sydd wedi cyfrannu at sioe deithiol 'Pobl Conwy' a gweithdai straeon ein hartistiaid. Mae'r arddangosfa wedi comisiynu'r ffotograffydd Portreadau Graham Hemborough a bydd yn cynnwys darnau o gyfweiliadau gyda'r bobl sydd wedi cymryd rhan.

Bydd Canolfan Ddiwylliant Conwy yn agor yn ystod hydref 2019 a bydd yn cynnwys Llyfrgell Ardal newydd ar gyfer Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno ynghyd ag Archifau a Chasgliadau Amgueddfa'r Sir, arddangosfeydd rhyngweithiol a gofod cymuned a chelfyddydau dynodedig.

Bydd y Ganolfan wedi ei lleoli ar gyffordd Town Ditch Road a Bangor Road, Conwy, Cymerwch ran!

 [diwylliant.culture@conwy.gov.uk](mailto:diwylliant.culture@conwy.gov.uk)

 01492 576 139

 [diwylliantconwyculture](https://www.facebook.com/diwylliantconwyculture)

Ariennir Canolfan Ddiwylliant Conwy gan Gronfa Dreftadaeth Y Loteri, Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru (Adran Amgueddfeydd, Archifau, a Llyfrgelloedd) a Chymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

# Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



## Newyddion cyffrous am ystafell ddosbarth awyr agored a gardd synhwyraidd

Mae Cronfa Gymunedol LDT wedi ein gwobrwyo gyda £44,354, gyda chyfraniadau pellach gan Gronfa Addysg Thomas Howell ar gyfer Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymreig Gogledd Cymru i greu gardd gymunedol newydd sy'n addas i unigolion â dementia, ac sy'n hygyrch ac ystafell ddosbarth awyr agored yn y ganolfan newydd. Bydd gan y gerddi lwybrau hygyrch, lleoedd i eistedd a bydd yn le i gefnogi



bioamrywiaeth lleol, cynyddu brigdwf coed a darparu cyfleoedd hygyrch i fwynhau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal. Bydd ymwelwyr yn cael cyfle i ddefnyddio'r llwybr rhwbio pres ar y thema natur, a noddir gan Gronfa Addysg Thomas Howell Gogledd Cymru, sy'n plethu gyda'r ardd synhwyraidd a'r tirlun ehangach. Mae gan ystâd Bodlondeb hanes o arddwriaeth a rhandiroedd, ac mae cyn safle Abaty Sistersaidd Aberconwy gerllaw; safle o hunangynhaliaeth, addysg feddygol a gwellhad. Bydd yr ardd yn cynnwys planhigion sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn, gan gynnwys planhigion 'Gardd Berlysiâu': Perlysiâu meddygol naturiol, fel y rheiny a dyfwyd gan fynachod Aberconwy gynt. Bydd y prosiect yn defnyddio'r planhigion hyn fel adnodd dysgu a therapiwtig sy'n gysylltiedig â llyfrgell lles y Ganolfan Ddiwylliant. Mae'r prosiect yn bartneriaeth gyda Incredible Edible, sefydliad gwirfoddol lleol yng Nghonwy, sydd â'r bwriad o annog y syniad o 'dyfu eich hunain' a byw'n gynaliadwy. Mae'r prosiect yn cydweithio gyda Chymdeithas Alzheimer's a DeafBlind Cymru hefyd, i sicrhau bod yr ardd yn ofod hygyrch a chroesawgar i ystod eang o gynulleidfaoedd gwahanol sy'n cael eu heffeithio gan nam i'r synhwyrau. Bydd rhaglen o ddigwyddiadau a hyfforddiant yn cydfynd gyda'r prosiect, gan gynnwys popeth, o dyfu llysiâu a fforio, i adrodd hanesion am sut i wneud eich pwltris canoloesol eich hun!

# Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



## Sesiynau Blasu

Wrth i'n blwyddyn gyntaf o Gynllunio Gweithgareddau ddod i ben, cawsom gyfle i adlewyrchu ar lwyddiant ein rhaglen o sesiynau blasu yn y celfyddydau a threftadaeth. Cynhaliwyd 88 sesiwn o amgylch Conwy, gyda chyfanswm o 2,235 o bobl yn cymryd rhan! Diolch yn fawr i'n artistiaid preswyl, ynghyd â'r cyhoedd am gymryd rhan yn ein gweithgareddau – dyma i ragor o sesiynau yn y dyfodol!



## Grŵp y Gymraeg



Rydym yn dymuno i'r Ganolfan Ddiwylliant fod yn lle i bobl ddod i ddefnyddio, mwynhau ac ymarfer eu Cymraeg mewn

amgylchedd cefnogol a hamddenol, felly rydym wedi dechrau gweithio i gyflawni hyn gyda chymorth Menter Iaith i sefydlu grŵp i siaradwyr Cymraeg y dref. Mae'r sesiynau am ddim, ac ar agor i bob math o Siaradwr Cymraeg; siaradwyr rhugl a dysgwyr o bob lefel. Cynhelir ein sesiynau bob mis. Ym mis Mai, mae'r grŵp wedi cael dau gyfarfod yn lle ei gyfarfod misol arferol: am yr sesiwn cyntaf cafwyd daith gyfrwng Gymraeg ar y thema natur o amgylch Parc Bodlondeb gydag arweiniad aelod o staff Bodlondeb. Bydd yr ail sesiwn ar yr 9/5/19 yn cynnwys canu hwiangerddi Cymraeg gyda Ysgol Porth y Felin, rhwng 2pm a 4pm yn Llyfrgell Conwy. Am fwy o wybodaeth ar gyfer y sesiynau yma, plis cysylltwch â Llyfrgell Conwy!

# Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County





## Ein Rhaglen Llysgennad Treftadaeth

Mae cydweithio gyda Gwasanaeth Ieuenctid Conwy a Phrosiect Fusion a noddir gan Lywodraeth Cymru wedi ein caniatáu i ddarparu ystod eang o gyrsiau diwylliannol, celfyddydol a threftadaeth i bobl ifanc ac oedolion ar draws y Sir. Hyd yma dosbarthwyd 11 achrediad AGORED a 60 Gwobr Celf i'n pobl ifanc, gyda 10 achrediad oedolyn yn cael eu dyrannu i ymchwilio i hanes teulu a chymdogaeth.

Rydym yn y broses o gynllunio digwyddiadau dathlu a chip ymlaen llaw, wrth baratoi ar gyfer yr agoriad swyddogol yn yr hydref, felly gwylwch y gofod am ddiweddariadau rheolaidd a chyfleoedd i gymryd rhan. Os ydych chi'n dymuno ymuno â'n rhestr bostio, cysylltwch â ni!

## Diweddariad ar yr Archif a Gwirfoddolwyr



Mae tîm yr Archif a'r Gwirfoddolwyr wedi bod yn gweithio'n galed i gael ein casgliadau yn barod i symud. Ers ein cylchlythyr diwethaf, rydym wedi cael gwirfoddolwyr newydd yn ymuno â ni i

gatalogio a pharatoi'r casgliadau i symud i'n cartref newydd yn ystod yr haf. Mae ein gwirfoddolwyr wedi bod yn ddiwyd iawn yn yr Archifau, ac mae hyn yn dangos: hyd yma mae 30 gwirfoddolwr wedi gweithio 2,411 awr i'n helpu ni i baratoi popeth yn barod at symud. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ein helpu ni gyda hyn; peidiwch anghofio, os oes gennych chi, neu rhywun rydych yn eu hadnabod ddiddordeb mewn gwirfoddoli gyda ni – cysylltwch!

# Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

